

SL(5)767 – Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021

Cefndir a diben

Gwneir Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021 (“y Rheoliadau”) o dan y pwerau galluogi sydd wedi'u cynnwys yn adrannau 83(2), 84 a 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(1).

Mae Rhan 5 o Ddeddf 2021 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig. Mae cyd-bwyllgorau corfforedig yn gyrrff corfforedig sy'n cynnwys y cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol hynny yng Nghymru a bennir yn y Rheoliadau sy'n eu sefydlu. Caniateir iddynt arfer y swyddogaethau a bennir yn y Rheoliadau hynny, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) swyddogaethau penodedig cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol o ran trafndiaeth.

Mae adran 83(2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol neu arbed sy'n berthnasol mewn perthynas â (a) yr holl gyd-bwyllgorau corfforedig; (b) cyd-bwyllgor corfforedig penodol, ac (c) disgrifiad penodol o gyd-bwyllgor corfforedig. At hynny, mae adran 84 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn cysylltiad â Rhan 5 o Ddeddf 2021, sy'n diwygio, addasu, cymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) neu'n datgymhwyso unrhyw ddeddfiad. Yn olaf, mae adran 174 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheoliadau hyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn y Senedd.

Mae Rhan 2 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (p. 38) (“Deddf 2000”) yn gwneud darpariaeth ynghylch trafndiaeth leol yng Nghymru. Yn benodol, mae'n gwneud darpariaeth ynghylch Awdurdodau Trafnidiaeth Lleol sydd, yng Nghymru, wedi'u diffinio at ddibenion Rhan 2 fel cynghorau sir neu fwrdeistref sirol.

Mae adran 108 o Ddeddf 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Trafnidiaeth Lleol ddatblygu cynllun trafndiaeth lleol sy'n hyrwyddo trafndiaeth ddiogel, integredig, effeithlon ac economaidd yn ardal yr awdurdod.

Mae'r Rheoliadau'n addasu Deddf 2000 mewn achosion lle mae cyd-bwyllgor corfforedig wedi'i sefydlu gan Reoliadau, ac mae'r swyddogaeth o ddatblygu polisiau o dan adran 108 o Ddeddf 2000 wedi'i rhoi i'r cyd-bwyllgor corfforedig. Mae'r addasiadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyd bwyllgor corfforedig ddatblygu polisiau trafndiaeth a sefydlu cynllun trafndiaeth rhanbarthol ar gyfer ei ardal. Fodd bynnag, rôl pob Awdurdod Trafnidiaeth Lleol yn ardal y cydbwyllgor corfforedig yw rhoi'r polisiau ar waith. Mae pedwar cyd-bwyllgor corfforedig wedi'u sefydlu o dan eu Rheoliadau priodol.

Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft.



Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae pennawd y Rheoliadau yn cyfeirio at "LLYWODRAETH LEOL, CYMRU". Nodir mai prif ffocws y Rheoliadau yw trosglwyddo swyddogaethau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth leol i'r cyd-bwyllgorau corfforedig perthnasol sydd newydd eu ffurfio. O'r herwydd, nid yw'n eglur pam nad yw'r pennawd pwnc yn cynnwys 'TRAFNIDIAETH' hefyd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2 Mawrth 2021

